

Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn

1. CYFLWYNIAD

Mae'n rhaid i bawb gael lle ac amser i ymlacio a mwynhau, a gwneud gweithgareddau, hobiau neu beth bynnag sy'n bwysig iddyn nhw. Mae cael rhyddid i wneud hyn yn bwysig iawn, ac ni ddylai gweithgareddau un person fod yn bwysicach na gweithgareddau rhywun arall - mae angen ystyried eraill a diddordebau, anghenion a dymuniadau pawb mewn cymdeithas.

Mae hyn yn golygu bod gan y Cyngor gyfrifoldeb i helpu i greu amodau yn y sir sy'n galluogi pawb i'w mwynhau, sut bynnag y maent yn dewis gwneud hynny, gan gynnwys yn yr amryw ardaloedd hardd, mannau cyhoeddus, parciau a thraethau yma. Weithiau gall hyn olygu creu rheolau i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud yn benodol â rheoli cŵn, ond yn gyffredinol mae'n ymwneud â sicrhau ymddygiad cyfrifol.

Mae'r rhan fwyaf o berchnogion cŵn yn gyfrifol iawn – mynd â rhaw faw neu fagiau gyda nhw pan maent allan gyda'u ci, peidio caniatáu iddo fynd i gaeau chwarae er enghraifft, a chadw eu ci ar dennyn a dan reolaeth agos pan fo angen. Ond, yn anffodus, nid yw rhai perchnogion cŵn yn ymddwyn yn gyfrifol, ac mae hyn yn cael effaith niweidiol ar eraill, yn berchnogion cŵn a phobl heb gŵn.

Felly, mae'r ddogfen hon yn nodi'r cefndir, cyfiawnhad a chynigion ar gyfer rheoli cŵn yn y sir dros y 3 blynedd nesaf. Y nod yw creu cydbwysedd lle gall perchnogion cŵn fwynhau eu cŵn a sicrhau eu lles, gan alluogi eraill i fwynhau'r mannau agored ar yr un pryd heb ymyrraeth neu effaith gan gŵn a pherchnogion cŵn anghyfrifol.

2. CEFNDIR

2.1 Perchnogaeth cŵn yn y sir

Yn y DU, mae tua 1 mewn 2 aelwyd yn berchen ar anifail anwes¹ ar hyn o bryd, ac yn berchen ar tua 20 miliwn o anifeiliaid anwes (ac eithrio pysgod). O'r 20 miliwn, mae 8.5 miliwn yn gŵn. Mae gan Gonwy 51,650 o aelwydydd², felly os yw'r ystadegau cenedlaethol yn berthnasol i Gonwy byddai tua 11,000 o aelwydydd yn y sir gyda chŵn, neu 1 mewn 5 aelwyd (20%).

2.2 Effaith

Fel Awdurdod rydym yn parhau i dderbyn nifer uchel o gwynion bob blwyddyn mewn perthynas â pherchnogaeth anghyfrifol o gŵn, gan gynnwys baw ci a chŵn nad ydynt dan reolaeth yn achosi pryder, damweiniau, yn crwydro a hyd yn oed yn ymosod ar anifeiliaid neu bobl eraill.

Felly mae angen i swyddogion y Cyngor wneud cryn dipyn o waith o ganlyniad i hyn. Mae hefyd costau glanhau amgylcheddol i'r Cyngor mewn perthynas â baw ci a bagiau o faw ci sydd wedi'u gadael yn anghyfrifol.

¹ <https://media.rspca.org.uk/media/facts>

² <http://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Statistics-and-research/Housing/Housing-in-Conwy-County-Borough-research-bulletin.aspx>

Ar ben gweithgareddau rheoli cŵn y Cyngor, mae gwaith Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â chŵn peryglus ac ymosodol yn bwysig ac yn cynyddu. Er y gwaith rheoli hwn, gan yr Heddlu a'r Cyngor, mae problemau sylweddol, cwynion a chanlyniadau i berchnogaeth anghyfrifol o gŵn yn y Sir y mae'n rhaid i ni ymdrin â nhw.

Er mwyn mynd i'r afael â phroblemau rheoli cŵn a darparu amgylchedd diogelach a glanach i breswylwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac ymwelwyr â'r sir, yn 2012 cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus ar raddfa fawr, ac yna cyflwynodd Orchmynion Rheoli Cŵn sy'n cyd-fynd â Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, gan ymdrin â:

- Baw Cŵn
- Gwahardd Cŵn
- Cŵn ar dennyn
- Cŵn ar dennyn trwy gyfarwyddyd

Mae cyflwyno'r Gorchmynion hyn wedi arwain at nifer o ganlyniadau cadarnhaol yn y Sir, gan gyfrannu yn sylweddol at ansawdd yr amgylchedd, gan helpu i sicrhau bod cŵn dan reolaeth a'n manau cyhoeddus a'n caeau chwarae yn ianach, gan sicrhau eu bod yn cael eu mwynhau. Yn benodol mewn perthynas â baw ci, canfuwyd baw ar ddim ond 5.3% o strydoedd Conwy yn 2017 o gymharu â 16.5% yn 2012. Mae data o arolygon Cadwch Gymru'n Daclus hefyd yn dangos, o fod ychydig yn is na chyfartaledd Cymru yn 2012, mae Mynegai Glendid Strydoedd Conwy wedi bod yn cynyddu yn gyson, ac rŵan 2.9% yn uwch na chyfartaledd Cymru, sydd ynddo'i hun ond wedi cynyddu 0.7% dros yr un cyfnod. Ond, mae nifer sylweddol o gwynion ac enghreifftiau o berchnogaeth anghyfrifol o gŵn yn y sir.

Ar 20 Hydref 2017 cafodd y pŵer i wneud Gorchmynion Rheoli Cŵn ei ddiddymu gan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014 (y Ddeddf), a rhoddodd bwerau i Awdurdodau Lleol i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel cŵn afreolus a pherchnogion cŵn anghyfrifol, trwy ddefnyddio Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC). Nododd y Ddeddf y byddai unrhyw Orchmynion Rheoli Cŵn a oedd mewn grym ar y dyddiad cychwyn (20 Hydref 2017) yn dod yn GDMC yn awtomatig ar y dyddiad hwnnw, gan fod ganddo'r un cynnwys â'r Gorchmynion Rheoli Cŵn blaenorol. Bydd GDMC yn parhau am 3 blynedd, ac wedi hyn bydd angen adolygiad i benderfynu a ddylid cyflawni, amrywio, ymestyn, diddymu neu ddiwygio'r Gorchmyn. Y GDMC a ddaeth i rym o 20 Hydref 2017 yw testun yr ymgynghoriad hwn, a'r cynigion i'w ddiwygio.

Fel Awdurdod, rydym eisiau parhau i hyrwyddo a sicrhau perchnogaeth gyfrifol ar gŵn, gan gynnwys trwy orfodaeth ac addysg priodol ac angenrheidiol. Oherwydd bod y Gorchmynion Rheoli Cŵn wedi bod mewn grym ers 2012, mae'n briodol rŵan i adolygu'r rheolaethau priodol sydd yn eu lle i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac effeithiol i reoli man glanach, iachach a diogelach i fyw, gweithio ac ymweld ag o, a pharhau i gydbwyso hawliau amrywiol a chystadleuol perchnogion cŵn a rhai nad ydynt yn berchnogion cŵn.

2.3 Pam cyflwyno GDMC diwygiedig?

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, rydym yn cydnabod bod llawer o berchnogion cŵn yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn cadw eu cŵn dan reolaeth, sy'n cynnwys clirio ar eu holau mewn mannau cyhoeddus. Ond, yn anffodus, mae rhai perchnogion cŵn anghyfrifol sy'n achosi problemau i'r gymuned gyfan.

Bydd y GDMC diwygiedig arfaethedig yn darparu dull i'r awdurdod a'r Heddlu barhau i ymdrin â'r perchnogion cŵn anghyfrifol yn y gymuned mewn modd effeithlon ac effeithiol, gan annog diwylliant o berchnogaeth cŵn cyfrifol.

Bydd y GDMC yn parhau i adeiladu ar yr effeithiau cadarnhaol y mae'r mesurau a orfodwyd gan y Gorchmynion Rheoli Cŵn wedi'i gyflawni hyd yma, a bydd yn arwain at amgylchedd brafach, yn sicrhau ardaloedd chwaraeon a chwarae i blant ac oedolion, ac yn lleihau'r tebygolrwydd o broblemau iechyd sy'n gysylltiedig â baw ci.

Bydd y Gorchmyn yn datblygu hyrwyddo perchnogaeth cŵn cyfrifol trwy orfodi ac addysgu yn rhesymol a chyfatebol i sicrhau cydymffurfiaeth.

3. CRYNODEB CYNNWYS GDMC

3.1 Beth fydd wedi'i gynnwys yn y GDMC diwygiedig arfaethedig?

Yn amodol ar y newidiadau a'r ychwanegiadau a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn isod, bydd gan y GDMC diwygiedig arfaethedig yr un rheolaethau, gan mwyaf, â'r rhai sydd mewn grym ar hyn o bryd, sef:

a. Cŵn yn Baeddu Tir

Bydd yn drosedd i unrhyw berson sy'n gyfrifol am gi sy'n baeddu ar dir a nodwyd yn y Gorchmyn i beidio mynd â'r baw ymaith, oni bai y gallant ddangos esgus rhesymol dros beidio, neu bod perchennog/preswylydd y tir wedi rhoi caniatâd iddynt beidio gwneud hynny.

b. Gofynion Eithrio Cŵn

Bydd yn drosedd i unrhyw berson sy'n gyfrifol am gi fynd â'r ci neu ganiatáu i'r ci fynd i neu aros ar dir mewn Parth Eithrio Cŵn, oni bai y gallant ddangos esgus rhesymol dros beidio, neu bod perchennog/preswylydd y tir wedi rhoi caniatâd iddynt beidio gwneud hynny.

c. Gofynion Cŵn ar Dennyn

Bydd yn drosedd i unrhyw berson sy'n gyfrifol am gi beidio cadw eu ci ar dennyn bob amser ar dir a nodwyd yn y Gorchmyn.

d. Gofynion Cyfarwyddyd Cŵn ar Dennyn

Bydd yn drosedd i unrhyw berson sy'n gyfrifol am gi beidio rhoi a chadw eu ci ar dennyn pan ofynnir iddynt wneud hynny gan swyddog awdurdodedig neu asiant y Cyngor neu Swyddog Heddlu mewn perthynas ag unrhyw dir yn yr awyr agored lle caniateir i'r cyhoedd gael mynediad iddo.

3.2 A fydd unrhyw newidiadau i'r rheolaethau presennol yn y GDMC?

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor yn manteisio ar y cyfle hwn i adolygu'r rheolaethau cyfredol i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn effeithiol wrth gynnal lle glanach, iachach i fyw, gweithio ac ymweld, a pharhau i gydbwyso hawliau cystadleuol ac amrywiol perchnogion cŵn a phobl nad ydynt yn berchnogion cŵn.

Mae mapiau sy'n dangos yr ardaloedd rheoli cyfredol a'r newidiadau arfaethedig wedi'u dangos yn Atodiad 1 a'u disgrifio isod.

4. MANYLION CYNNWYS GDMC

a. Cŵn yn Baeddu Tir

4.a.1 Sefyllfa Gyfredol – dan y Gorchymyn Cŵn yn Baeddu Tir (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2012 (a'r GDMC a ddaeth i rym o 20 Hydref 2017), os bydd ci yn baeddu ar unrhyw adeg ar dir sy'n berthnasol i'r GDMC presennol a bod y person sy'n gyfrifol am y ci ar y pryd yn peidio codi'r baw ar unwaith, bydd y person yn euog o drosedd.

Mae'r GDMC presennol yn berthnasol i bob tir yn ardal weinyddol y Cyngor sydd yn yr awyr agored lle gall y cyhoedd gael mynediad iddo gyda thâl neu am ddim.

4.a.2 Rhesymeg

Heblaw yr arogl annymunol a'r llanast a grëir gan faw ci pan fydd yn mynd ar olwynion pramiau, cadeiriau olwyn, esgidiau a dillad ayyb, mae'r peryglon i iechyd oherwydd baw cŵn wedi'u trafod yn aml. Mae ymchwil i oblygiadau iechyd yn dod i'r casgliad bod Toxocariasis yn afiechyd a geir mewn baw anifeiliaid ac yn cael ei achosi gan wyau'r prifyn toxocara. Gellir pasio'r rhain o gŵn i bobl trwy ddod i gyswllt â baw anifeiliaid a phridd wedi'i halogi. Mae plant yn arbennig mewn perygl ac wedi'u heintio gall arwain at salwch a hyd yn oed dallineb.

Mae hwn yn risg iechyd y gellir ei osgoi a dyma'r prif reswm y dylai perchnogion cŵn lanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes. Nid yw baw ffres yn heintus gan nad yw wyau toxocara yn heintus am o leiaf 2-3 wythnos ar ôl i'r anifail faeddu. Felly, nid oes risg o ddal toxocariasis wrth lanhau ar ôl eich ci yn syth.

4.a.3 Cynnig – Dim newid, dylai'r GDMC adlewyrchu'r ymrwymiad hwn fel y mae.

b. Dulliau o gasglu Baw Ci

4.b.1 Sefyllfa gyfredol – Dim rheolaeth o'r fath wedi'i sefydlu

4.b.2 Rhesymeg

Mae'r Awdurdod yn credu ei fod yn rhesymol y dylai person sy'n gyfrifol am gi pan fydd allan yn cerdded fod yn cario rhywbeth i gasglu'r baw ci a gynhyrchir gan y ci sydd yn eu gofal, gan sicrhau bod y baw ci yn cael ei symud oddi ar dir cyhoeddus yn syth. Byddai peidio gwneud hyn yn gwneud y person yn berchennog cŵn anghyfrifol. Os na all person

gynhyrchu dull addas o gasglu, cymerir yn ganiataol na fydd y baw yn cael ei symud, ac y bydd y baw yn aros yn yr un lleoliad ar y tir.

4.b.3 Cynnig – Bydd y GDMC yn ei gwneud yn ofynnol y gall gerddwyr cŵn gynhyrchu dulliau digonol o gasglu baw ci wrth gerdded ci mewn ardaloedd lle mae'r Gorchymyn yn berthnasol. Os nad oes ganddynt dulliau o'r fath, a hyn wedi'i sefydlu gan swyddog a awdurdodwyd, bydd y GDMC wedi'i dorri.

c. Gwaharddiad Cŵn

Mae nifer o ardaloedd yn y sir heb unrhyw Barthau Gwahardd Cŵn, lle bydd perchnogion cŵn yn rhydd i fynd â'u cŵn mewn modd cyfrifol. Er mwyn cydbwysu lles y rhai gyda chŵn a'r rhai sydd eisiau mwynhau mannau agored y Sir heb gael eu hamharu gan gŵn, cyflwynwyd rhai Parthau Gwahardd Cŵn yn 2012. Mae'r rhain yn gorchuddio canran fechan iawn o gyfanswm arwynebedd y sir, sef 113,000³ hectar.

4.c.1 Sefyllfa bresennol – dan y Gorchymyn Eithrio Cŵn (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2012 (a GDMC a ddaeth i rym o 20 Hydref 2017) bydd person sy'n gyfrifol am gi yn euog o drosedd os, yn ystod yr adegau a nodwyd yn y GDMC presennol, yw'r person yn mynd â'r ci, neu'n caniatáu i'r ci fynd, neu aros ar, unrhyw dir sy'n berthnasol i'r Gorchymyn hwn. Mae'r tir y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddo wedi'i restru fel a ganlyn:

- Pob Lle Chwarae Plant wedi'i Ffensio
 - Pob Llecyn Chwarae Aml-ddefnydd
 - Pob Cwrt Tennis
 - Pob Parc Sglefrio
 - Pob Lawnt Fowlio
 - Pob Maes Hamdden sy'n gysylltiedig â Sefydliadau Addysgol
 - Ardal Chwarae Pob Maes Chwaraeon a Farcwyd
 - Cae Chwarae Betws-yn-Rhos, Betws-yn-Rhos
 - Caeau Chwarae Capel Garmon, Capel Garmon
 - Cae Pêl-droed Cae Ffwt, Glan Conwy
 - Cae Chwarae Gyffin, Gyffin
 - Ardal Hamdden Ffordd Gower, Trefriw
 - Cae Chwarae Maes Aled, Llansannan
 - Cae Pêl-Droed, Lawnt Fowlio a'r Llecyn Gemau Aml-ddefnydd, Llansannan
 - Cae Pêl-Droed, Lawnt Fowlio, Pwll Nofio, Cyrtiau Tennis a'r Ardal Chwarae Plant, Llanfairfechan

 - Traethau yn dymhorol rhwng 1 Mai a 30 Medi gan gynnwys glan y môr, y blaendraeth ac unrhyw lethr neu risiau sy'n arwain at y traethau fel ym mhwyntiau i – viii isod:
- i. Llandrillo-yn-Rhos – yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a wal y promenâd rhwng Rhos Point a phen dwyreiniol Promenâd Cayley

³ <http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Education-and-Families/Assets/documents/Early-Years-Childcare-and-Funding/Conwy-Geographical-Wellbeing-Areas.pdf>

- ii. Bae Colwyn – yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a wal y promenâd rhwng Pier Fictoria a mynedfa'r promenâd i Barc Eirias.
- iii. Pensarn – yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd rhwng y polion pren a fewnosodwyd yn gyfagos i adeilad y caffi a'r polion concrid a fewnosodwyd ar ben eithaf gorllewinol y promenâd.
- iv. Bae Cinmel – yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd rhwng pwynt yn unol â Dinas Avenue, Bae Cinmel a phwynt sy'n unol â Ffordd y Twyni, Towyn.
- v. Traeth y Gogledd Llandudno – yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd sy'n ymestyn o Bier Llandudno i Clarence Road.
- vi. Pen Morfa Llandudno – yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd sy'n ymestyn rhwng y grwynau carreg
- vii. Penmaenmawr - yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd o ochr ddwyreiniol y caffi sydd wedi'i leoli ar y promenâd a'r llithrfa sy'n gysylltiedig â'r clwb hwyllo.
- viii. Llanfairfechan – yr ardal draeth sy'n ymestyn rhwng y marc llanw isel a'r promenâd rhwng y ddwy lithrfa
 - 12 mis o waharddiad ar y traethau
- ix. Point Rhos, Llandrillo yn Rhos – rhan dywodlyd o'r traeth sydd heb ei olchi gan y llanw.

4.c.2 Rhesymeg

Ystyrir bod ardaloedd chwarae plant yn ardaloedd sydd wedi'u cau ar bob ochr gan ffens, giatiau, waliau neu strwythur arall sy'n marcio'r terfyn, ac yn cynnwys offer chwarae fel siglenni, llithrennau, fframiau dringo ac offer arall tebyg. Fel Awdurdod rydym yn credu y dylai plant fod yn rhydd i chwarae yn yr ardaloedd hyn heb y perygl y byddant yn dod i gyswllt â baw ac wrin cŵn. Hefyd, fel gyda rhai oedolion, mae rhai plant ofn cŵn beth bynnag yw eu brîd neu faint, a dylent gael cyfle i chwarae yn rhydd rhag y perygl hwn.

Mae ardaloedd gemau aml-ddefnydd, cyrtiau tennis, parciau sgelfrio a lawntiau bowlïo i'w defnyddio gan yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y chwaraeon hyn yn unig, ac nid oes rheswm i gŵn fod yma. Mae ardaloedd chwarae'r holl leiniau chwaraeon wedi'u marcio wedi'u cynnwys gan y bydd ardaloedd o'r fath yn cael eu defnyddio yn bennaf ar gyfer gweithgareddau chwaraeon wedi'u trefnu fel pêl-droed neu rygbi, a gall y ddau olygu cyswllt agos â'r ddaear. Gall toxacara, o ganlyniad i faw ci, aros yn y pridd am gyfnodau estynedig o amser, ac felly bydd perygl posibl gyda chyswllt o'r fath ac yn peryglu'r rhai sy'n defnyddio'r ardal.

Fel gydag ardaloedd chwarae plant, mae angen i gaeau sy'n rhan o sefydliadau addysgol fod yn ardaloedd diogel a glân i blant a myfyrwyr eu defnyddio a chymryd rhan mewn gemau a gweithgareddau chwaraeon. Yn anffodus, mae'r awdurdod hwn wedi cael sawl cwyn gan sefydliadau chwaraeon ac ysgolion sydd wedi gorfod atal eu gweithgareddau i lanhau baw ci o ardal chwaraeon neu gae ysgol oherwydd bod plentyn neu aelod o dîm wedi syrthio a dod i gyswllt â'r baw ci, neu weddillion baw ci ar ôl glanhau annigonol.

Ar hyd arfordir Conwy, rydym yn lwcus i fod â'r traethau mwyaf syfrdanol a hardd i breswylwyr ac ymwelwyr eu mwynhau drwy gydol y flwyddyn. Yn yr haf yn benodol, bydd y defnydd o'r traeth yn cynyddu yn helaeth. Mae ansawdd ein traethau a'r tywydd braf yng Ngogledd Cymru yn annog llawer o bobl i ymweld, gan gynnwys perchnogion cŵn. Gall hyn arwain at gynydd mewn digwyddiadau a chwynion yn ymwneud â chŵn afreolus a baw ci.

Rydym yn gwerthfawrogi y dylai pawb fedru mwynhau'r traethau hardd, felly i gydbwysu hawliau perchnogion cŵn a phobl heb gŵn, mae cŵn wedi'u heithrio o rai rhannau o'r traeth dros dymor yr haf yn unig, oni bai bod y traeth yn un sych fydd ddim yn cael ei olchi gan y llanw. Yn yr ardaloedd hyn, bydd cŵn wedi'u heithrio yn barhaol.

Mae Conwy yn enwog am dros 73 km o arfordir trawiadol, ac mae llawer o'r traethau wedi cael amryw o acolâdau yng Ngwobrau Arfordir Cadwch Gymru'n Daclus⁴. Hefyd, fel Awdurdod, rydym wedi llwyddo i gael y Wobr Baner Las ar gyfer llawer o'n traethau⁵, sy'n wobwr rhyngwladol a roddir i draethau a reolir yn dda, gydag ansawdd dŵr rhagorol a rhaglenni addysgu amgylcheddol. Mae hwn yn hwb aruthrol i'r diwydiant twristiaeth yn yr Awdurdod hwn, ac i ardal gael ei hystyried am wobwr Baner Las mae'n rhaid iddi ddiwallu meini prawf penodol, ac un o'r rhain yw bod mynediad gan gŵn ac anifeiliaid domestig eraill yn cael ei reoli yn llym⁶. Gofyniad penodol arall yw bod cŵn wedi'u heithrio o'r traeth yn ystod y tymor ymdrochi yng Nghymru a Lloegr⁷. Mae hyn wedi'i gyflawni trwy ddefnyddio Rheolaethau Gwahardd Cŵn yn y GDMC cyfredol.

Mae'r ardaloedd gwahardd cŵn eraill a restrwyd dan y GDMC cyfredol wedi'u cynnwys fel ardaloedd lle cafwyd llawer iawn o gwynion ynglŷn â baw ci, neu gŵn heb fod dan reolaeth briodol, yn atal pobl rhag defnyddio'r tir ar gyfer ei bwrpas gan y gymuned gyfan, sef, fel y nodwyd yn y rhan fwyaf o leoliadau, hamdden a chwarae.

4.c.3 Cynnig – i'r holl ardaloedd a restrwyd aros fel parthau eithrio cŵn yn y GDMC diwygiedig **ac eithrio** y traethau y dylid eu ***hychwanegu, eu diwygio o ran disgrifiad, arwynebedd neu hyd amser, fel a ganlyn:***

- Bae Cinmel – yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd rhwng y fynedfa i'r traeth o faes parcio St Asaph Avenue, Bae Cinmel, a'r fynedfa gyntaf i'r traeth o'r promenâd yn unol â phen draw maes parcio ASDA.
- Traeth y Gogledd Llandudno - yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd sy'n ymestyn o Bier Llandudno i'r llithrfa gyntaf yn unig (ond heb gynnwys y llithrfa).
- Penmaenmawr - yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd o wal y traeth i'r llithrfa (ond heb gynnwys y llithrfa) sy'n gysylltiedig â'r clwb hwylio.
- Llanfairfechan – yr ardal draeth sy'n ymestyn rhwng marc llanw isel a'r promenâd rhwng y ddwy lithrfa (ond heb gynnwys y llithrfeydd)

12 mis o waharddiad ar y traethau

- Bae Colwyn – yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a wal y promenâd rhwng y llithrfa (ond heb gynnwys y llithrfa) sy'n gwasanaethu Porth Eirias a'r fynedfa risiog gyntaf i'r traeth i'r chwith o'r Pier.

a

- Pwll Padlo Cymuned Llandudno / Craig y Don
- Cae Chwarae Cae Llwyd, Cerrigydrudion

Gyda'r traethau canlynol wedi'u dileu:

⁴ <http://www.conwy.gov.uk/cy/Spotlight/Press-Releases/Coast-Awards-for-Conwy-County-Beaches.aspx>

⁵ <http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Leisure-sport-and-health/Coast-and-Countryside/Seaside/Beaches-and-Promenades/Seaside-Awards.aspx>

⁶ <https://www.keepwalestidy.cymru/baner-las-traethau>

⁷ <http://www.theseasideawards.org/blueflagawardcriteria/2128>

- Llandrillo-yn-Rhos – yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a wal y promenâd rhwng Rhos Point a phen dwyreiniol Promenâd Cayley
- Bae Colwyn – yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a wal y promenâd rhwng Pier Fictoria a mynedfa'r promenâd i Barc Eirias.

4.c.4 Rheswm – Fel y nodwyd eisoes, mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi y dylai pawb, yn berchnogion cŵn a phobl heb gŵn, fedru mwynhau'r traethau hardd yng Nghonwy, ond mae angen gwahardd cŵn o rannau bychan o rai traethau oherwydd yr holl resymau uchod.

Wedi dweud hynny, ers 2012 mae nifer o'r traethau a gynhwyswyd yn wreiddiol yn y Gorchmynion Rheoli Cŵn wedi cael eu datblygu, eu haddasu neu eu mynedfeydd wedi newid. I symleiddio lleoliadau, a mynedfeydd i'r traethau sydd â Gwaharddiadau Cŵn tymhorol, gan sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gydbwyso mewn modd teg a phriodol hawliau perchnogion cŵn a phobl nad oes ganddynt gŵn, rydym wedi addasu'r ardaloedd traeth tymhorol a chynnwys y rhain yn y GDMC diwygiedig arfaethedig. Dan y GDMC presennol, mae gan 6.25 Km o 73 Km o arfordir y sir waharddiad cŵn parhaol neu dymhorol. Dan y GDMC diwygiedig arfaethedig, byddai hyn yn lleihau i 3.3km.

Yr un newid sylweddol i'r parthau gwahardd ar draethau yw bod y traeth o Borth Eirias i Landrillo yn Rhos, ers y gwaith datblygu ar y promenâd ym Mae Colwyn, rŵan yn draeth sych, nad yw'n cael ei olchi gan y llanw, yn union fel y traeth tywodlyd bychan yn Llandrillo yn Rhos. Mae hyn yn golygu, pe bai perchnogion cŵn anghyfrifol yn caniatáu i'w cŵn faeddu ar y traeth hwn, a pheidio ei lanhau, neu adael ychydig ar ôl, bydd y baw yn aros lle y mae. Bydd hyn yn cyflwyno goblygiadau annymunol a pheryglus i ddefnyddwyr y traeth oherwydd y baw ci. I'r perwyl hwn, i leihau'r risg, mae'r rhan o'r traeth rhwng Porth Eirias a'r fynedfa risiog gyntaf i'r traeth i'r chwith o'r pier wedi'i gynnwys yn y GDMC diwygiedig arfaethedig fel gwaharddiad 12 mis ar gŵn.

Mae'r pwll padlo yng Nghraig y Don / Llandudno wedi'i gynnwys yn y GDMC diwygiedig arfaethedig fel ardal arall lle rydym yn credu y dylai plant fod yn rhydd i chwarae yn yr ardaloedd hyn heb y perygl y byddant yn dod i gyswllt â baw ac wrin cŵn. Hefyd, fel gyda rhai oedolion, mae rhai plant ofn cŵn beth bynnag yw eu brîd neu faint, a dylent gael cyfle i chwarae yn rhydd rhag y perygl hwn.

d. Cŵn ar Ddennyn

4.d.1 Sefyllfa bresennol – dan y Gorchymyn Cŵn ar Ddennyn (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2012 (a GDMC a ddaeth i rym o 20 Hydref 2017) bydd person sy'n gyfrifol am gi yn euog o drosedd os bydd y person, ar unrhyw adeg, ar unrhyw dir sy'n berthnasol i'r GDMC presennol, yn methu cadw'r ci ar ddennyn nad yw'n hirach na 2 fetr o hyd. Mae'r tir y mae'r gorchymyn yn berthnasol iddo wedi'i restru fel a ganlyn:

- Pob ffordd (mae'r term hwn yn cynnwys palmentydd, troedffyrdd ac ymylon) sydd â therfyn cyflymder o 40mya neu lai
- Pob mynwent a thir eglwys
- Caeau Chwarae Cae Derw, Cyffordd Llandudno; ac eithrio'r ardal ddynodedig wedi'i ffensio ar gyfer mynd â chŵn am dro,
- Cae Chwarae Betws-yn-Rhos, Betws-yn-Rhos
- Cae Chwarae Ffordd Pentwyn, Deganwy
- Cae Chwarae Parc Clwyd, Bae Cinmel

- Yr Oval, Llandudno
- Tir Hamdden Maesdu Road, Llandudno
- Cae Chwarae Rowen, Rowen
- Llwybr Glanrafon o'r Bont i Faes Parcio Plas y Dre, Llanrwst
- Y llwybrau troed sy'n croesi ac amgylchynu'r Clwb Golff, Betws y Coed.
- Clwb Golff Gogledd Cymru, Llandudno
- Tir Cymunedol a Hamdden Llysfaen, Dolwen Road, Llysfaen
- Twyni Tywod, Bae Cinmel
- Tir Hamdden Llanfairfechan a'r Tir sy'n amgylchynu'r Llyn Cychod, Llanfairfechan
- Y Tir Hamdden sy'n amgylchynu'r Cae Pêl-droed, y Lawnt Fowlio a'r Ardal Gemau Aml-ddefnydd, Llansannan

4.d.2 Rhesymeg

Dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 A.27⁸ mae'n drosedd i gi fod ar ffordd ddynodedig heb fod ar dennyn. Hefyd, dim ots pa mor dda y mae wedi'i hyfforddi, gall ddiffyg canolbwyntio am eiliad, neu bod y ci yn cael ei ddychryn, arwain at wneud i'r ci redeg a all arwain at ddamwain ddifrifol neu anaf i anifail arall, cerddwyr neu'r gyrrwr a theithwyr mewn cerbyd.

Mae'n bwysig hefyd bod holl ddefnyddwyr y ffordd yn gwybod Rheolau'r Ffordd Fawr ac yn ystyriol o'i gilydd. Mae hyn yn berthnasol i gerddwyr cymaint ag ydyw i yrwyr a marchogwyr. Yn benodol, mae Rheol 56 Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi:

“Cŵn: Peidiwch â gadael i gi fynd allan i'r ffordd ar ei ben ei hun. Cadwch y ci ar dennyn byr wrth gerdded ar y palmant, ffordd neu lwybr sy'n cael ei rannu â beicwyr neu farchogwyr.”

Gellir defnyddio Rheolau'r Ffordd Fawr fel tystiolaeth mewn unrhyw achos llys dan y Ddeddf Traffig. I gael rhagor o wybodaeth gweler Atodiad 2.

Mae mynwentydd a thir eglwysi yn ardaloedd sensitif; wrth i berchnogion fynd â'u cŵn i'r lleoliadau hyn a chaniatáu iddynt grwydro yn rhydd, gall arwain at gŵn yn baeddu a gwlychu ar feddi, sy'n annerbyniol ac yn arwain at amgylchedd amhleserus lle dylai heddwch a pharch fod yn hollbwysig. Mae'n gwneud synnwyr y dylai cŵn fod dan reolaeth briodol mewn lleoliadau o'r fath.

Mae'r ardaloedd eraill a restrwyd dan y GDMC cyfredol wedi'u cynnwys fel ardaloedd lle cafwyd llawer iawn o gwynion ynglŷn â baw ci, neu gŵn heb fod dan reolaeth briodol, yn atal pobl rhag defnyddio'r tir ar gyfer ei bwrpas gan y gymuned gyfan (perchnogion cŵn a phobl heb gŵn), sef, fel y nodwyd yn y rhan fwyaf o leoliadau, hamdden. Yn ogystal â hyn, mae ardaloedd yn cael eu cynnwys i atal cŵn afreolus rhag amharu ar adar prin sy'n bridio, a bywyd gwyllt arall ac ar gais perchnogion tir/preswylwyr a Chynghorau Tref a Chymuned.

4.d.3 Cynnig – i'r holl ardaloedd a restrwyd aros fel parthau amodau cŵn ar dennyn, o fewn y GDMC diwygiedig, ac eithrio:

- Cae Hamdden Parc Clwyd, Bae Cinmel, y dylid ei ddiwygio i nodi Cae Hamdden Parc Clwyd, Bae Cinmel, ac eithrio'r ardal wedi'i ffensio sydd wedi'i ddynodi ar gyfer rhoi ymarfer corff i gŵn;

⁸ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1988/52/section/27>

- Tir Hamdden Llanfairfechan a'r tir o amgylch y Llyn Cychod gan gynnwys y tir cyn belled â therfyn pellaf "Kingswood", Llanfairfechan

a gan ychwanegu'r lleoliadau canlynol:

- Pob maes parcio
- Ystâd Gwrych, Abergele
- Ardal Parc Bodlondeb sy'n cynnwys y cae pêl-droed, y cae criced a'r cyrtiau tennis a'r ardal chwarae plant, Conwy
- Y llwybr rhwng Glan yr Afon Road ac Old Mill Road, Dwygyfylchi
- Y llwybr rhwng Conway Old Road ac Old Mill Road, Dwygyfylchi
- Y llwybr o Ysguborwen Road i'r garej ger yr A55 / Maes Y Llan, Dwygyfylchi

4.d.4 Rheswm – Fel gyda'r briffordd, mae maes parcio yn ardal ar gyfer parcio ceir yn unig. Gall ci sydd ddim ar dennyn mewn maes parcio arwain at yr un perygl â chi nad yw ar dennyn ar y palmant, gan y gall ci afreolus achosi damwain ddifrifol neu anaf i anifail, cerddwr neu yrrwr a theithwyr mewn cerbyd.

Mae'r ardaloedd canlynol wedi'u cynnig yn dilyn ceisiadau gan Aelodau a thirfeddianwyr oherwydd y niferoedd uchel o gwynion yn ymwneud â baw ci a chŵn ddim dan reolaeth, yn ymosod ar gŵn eraill, ac ymosod, rhedeg ar ôl a hyd yn oed lladd da byw, sy'n drosedd ynddo'i hun fel y nodwyd yn adran 9 Deddf Anifeiliaid 1971. Mae achlysuron o'r fath yn dorcalonnus iawn a niweidiol yn ariannol i ffermwyr, ac mae ganddynt ganiatâd i saethu cŵn sy'n poeni, neu ar fin poeni da byw. Mewn amgylchiadau o'r fath, nid oes rhaid i'r ffermwr roi iawndal i berchennog y ci. Gellir osgoi digwyddiadau o'r fath os yw ci dan reolaeth briodol, fel ar dennyn, sy'n esbonio cynnwys yr ardaloedd a nodwyd yn y GDMC diwygiedig arfaethedig.

e. Cŵn ar dennyn trwy gyfarwyddyd

4.e.1 Sefyllfa bresennol – dan y Gorchymyn Cŵn ar Dennyn (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2012 (a GDMC a ddaeth i rym o 20 Hydref 2017) bydd person sy'n gyfrifol am gi yn euog o drosedd os, ar unrhyw adeg, ar dir sy'n berthnasol i'r GDMC presennol, na fydd y person yn cydymffurfio â chyfarwyddyd gan swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod hwn i roi a chadw'r ci ar dennyn nad yw'n hirach na 2 fetr o hyd.

Mae'r GDMC yn berthnasol i bob tir yn ardal weinyddol y Cyngor sydd yn yr awyr agored lle gall y cyhoedd gael mynediad iddo gyda thâl neu am ddim.

Wrth weld trosedd yn cael ei chyflawni, gall Swyddog a Awdurdodwyd roi cyfarwyddyd os oes angen atal y ci i atal niwsans neu ymddygiad gan y ci sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu darfu i unrhyw berson ar unrhyw dir y mae'r GDMC yn berthnasol iddo, neu boeni unrhyw anifail neu aderyn.

4.e.2 Rhesymeg

Fel y nodwyd eisoes, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y mwyafrif o berchnogion cŵn yn gyfrifol ac yn cadw eu cŵn dan reolaeth wrth fynd â nhw ar dir cyhoeddus.

Ond, os nad ydynt yn cael eu goruchwyllo yn briodol a'u cadw dan reolaeth, gall cŵn sy'n cael mynd oddi ar dennyn mewn ardaloedd cyhoeddus achosi damweiniau traffig, ac achosi niwsans neu anaf i aelodau'r cyhoedd ac anifeiliaid eraill.

Mae bod â'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i rywun roi eu ci ar dennyn pan mae'n achosi niwsans yn darparu dull hyblyg a gweledol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau pan fyddant yn codi.

Mae'r Cyngor yn derbyn bod angen i berchnogion cŵn fedru rhoi ymarfer corff i'w cŵn oddi ar dennyn mewn mannau agored oherwydd rhesymau lles anifeiliaid, ac maent o'r farn bod y rhan hon o'r GDMC yn rhoi cydbwysedd teg a doeth – mae'n dal i alluogi pobl i gerdded eu cŵn oddi ar dennyn mewn ardaloedd cyhoeddus, ond yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor ymdrin ag unrhyw broblemau pan fyddant yn codi, trwy ei gwneud yn ofynnol i bobl roi eu ci ar dennyn. Wrth gwrs, dylai perchnogion cŵn ymddwyn yn gyfrifol bob amser, a pheidio â chaniatáu i'w ci ymyrryd ag eraill.

4.e.3 Cynnig – Dim newid, i'w adlewyrchu yn union fel y mae yn y GDMC diwygiedig

f. Swm Rhybudd Cosb Benodedig

Y swm cyfredol ar gyfer torri elfen baw ci y GDMC sydd mewn grym o 20 Hydref 2017 yw £100. Mae ffi o £75 yn berthnasol i dorri unrhyw ran arall o'r GDMC presennol.

Yr Egwyddor Llygrydd sy'n Talu yw y dylai'r rhai sy'n gyfrifol am unrhyw ddifrod amgylcheddol/ymddygiad anghyfrifol dalu am ganlyniadau hynny a'r gwaith atal.

Mae cost i'r cyngor wrth gynnal ymgyrchoedd addysg, cyhoeddusrwydd a gorfodi gyda'r nod o leihau perchnogaeth anghyfrifol ar gŵn. Ond, mae awydd i wneud llawer mwy, gan gynnwys codi arwyddion gwell ac ychwanegol, gwella ymgyrchoedd addysgu a rhoi adnoddau digonol i wella'r amgylchedd lle rydym yn byw.

Gyda'r nod o helpu i ddarparu rhaglen atal ac addysgu fwy cynaliadwy, cynigir cynyddu ffioedd Rhybudd Cosb Benodedig dan y GDMC diwygiedig arfaethedig i £100.

5. CYHOEDDUSRWYDD/YMWYBYDDIAETH

5.1 Sut fydd person yn gwybod ble mae'r Gorchymyn yn berthnasol?

Bydd y GDMC diwygiedig yn cynnwys llawer o'r rheolaethau a lleoliadau sydd eisoes yn gweithredu ym Mwrdeistref Sirol Conwy, felly rhagwelir y bydd gan amryw o breswylwyr ac ymwelwyr cyson wybodaeth ymlaen llaw. Wedi dweud hynny, rydym yn gwerthfawrogi na fydd hyn bob amser yn wir, felly bydd digon o arwyddion gyda chyfarwyddiadau clir a diagramau lle mae'r GDMC yn gweithredu. Yn ogystal â hyn, lle bo'n briodol, bydd y tir hefyd yn cael ei farcio gyda stensilau yn dangos y rheolaethau mewn grym.

Bydd gwybodaeth hefyd ar gael ar wefan y Cyngor, trwy'r cyfryngau cymdeithasol a byrddau gwybodaeth digidol, mewn taflenni o'r canolfannau croeso, llyfrgelloedd ac adeiladau cyhoeddus eraill, yn ogystal ag ar lafar trwy gysylltu â'r Awdurdod yn uniongyrchol.

Wedi dweud hynny, byddai perchnogion cŵn cyfrifol yn dangos rhinweddau perchnogaeth cyfrifol bob amser ac ym mhob man, dim ots a oes arwyddion neu beidio.

6. GWEITHREDU

6.1 Addysg a Chyhoeddusrwydd

Er yn elfen hanfodol, yn anffodus nid ydym yn credu mai gorfodaeth yn unig yw'r allwedd i sicrhau perchnogaeth cŵn cyfrifol. Felly, rydym yn gwneud gwaith atal ac addysgu trwy weithredu'r "Ymgynghoriad Cadwch y Lle'n Lân - Dim Llanast".

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae Llysgenhadon Conwy yn cael eu cyflogi i addysgu pobl a chodi ymwybyddiaeth o broblemau baw cŵn a sbwriel mewn ysgolion, grwpiau cymunedol a chymdeithasau trigolion yn ogystal â gyda thenantiaid cymdeithasau tai. Maent yn gosod arwyddion, patrolio ardaloedd problemus ar gyfer baw cŵn a sbwriel, ymgymryd â gwaith glanhau a chasglu sbwriel yn ogystal â bod hwnt ac yma'n gyffredinol ar draws y sir ac mewn sioeau a digwyddiadau er mwyn darparu gwybodaeth, bagiau baw cŵn am ddim a chynghor ar berchnogaeth cŵn cyfrifol. Pan fyddant yn y gymuned, byddant yn cysylltu ag ymwelwyr a'r cyhoedd i hyrwyddo ymddygiad cyfrifol.

Mae ein Hymgyrch Cadwch y Lle'n Lân - Dim Llanast a'n systemau gorfodi wedi bod yn llwyddiannus iawn ac maent yn sicr wedi cynyddu cyfranogiad busnesau a'r gymuned o ran gwella'r amgylchedd lleol ac annog pawb i gymryd cyfrifoldeb am yr ardaloedd hardd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt ac yn ymweld â hwy i'w mwynhau.

6.2 Gorfodaeth

6.2.1 Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cydymffurfio ag unrhyw ran o'r Gorchymyn?

Os bydd person yn peidio cydymffurfio â gofynion y GDMC diwygiedig, bydd hyn yn drosedd oni bai bod ganddynt esgus rhesymol neu eu bod wedi cael caniatâd gan y tîrfeiddiannwr. Fel gyda'r Gorchymyn Rheoli Cŵn yn flaenorol a'r GDMC presennol, y dull a ffafir yn y rhan fwyaf o achosion fydd rhoi Rhybudd Cosb Benodedig. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y penderfynir nad yw'n addas i roi Rhybudd Cosb Benodedig i'r person, a gall y Cyngor eu herlyn yn lle hynny. Gall amgylchiadau o'r fath gynnwys os yw'r person sy'n torri'r GDMC yn ymddwyn yn amhriodol tuag at Swyddog gorfodi neu wedi cael Rhybudd Cosb Benodedig o'r blaen am yr un drosedd.

6.2.2 Rhybuddion Cosb Benodedig

Mae Rhybudd Cosb Benodedig, os bydd yn cael ei roi, yn cynnig cyfle i berson ryddhau eu hatebolrwydd i gael eu herlyn trwy wneud taliad unigol. Nid yw derbyn Rhybudd Cosb Benodedig yn gyfaddefiad o euogrwydd; ni fydd rhaid i'r person fynd i'r Llys ac ni fydd yn cael euogfarn troseddol.

Cyn rhoi Rhybudd Cosb Benodedig, mae'n rhaid i Swyddogion Awdurdodedig gyfiawnhau eu camau gweithredu a sicrhau tystiolaeth ddigonol i ddangos y tu hwnt i bob amheuaeth bod unrhyw ran o'r GDMC wedi'i dorri, ac mae'n rhaid i'r amgylchiadau basio'r cod tystiolaeth iawn a bod er lles y cyhoedd.

Cynigir bod lefel y ffi a roddir am dorri'r GDMC diwygiedig arfaethedig yn £100. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o £25 o'r ffi £75 blaenorol a nodwyd ar gyfer Gwahardd Cŵn, Cŵn ar

Dennyn a Chŵn ar Dennyn drwy Gyfarwyddyd. Cynigir bod y ffi am Faw Ci yn aros ar y lefel gyfredol o £100.

6.2.3 Beth yw'r Uchafswm Cosb ar gyfer mynd yn groes i'r Gorchymyn?

Mae unigolyn sy'n euog o drosedd yn Llys yr Ynadon yn agored ar erlyniad diannod i ddirwy o ddim mwy na lefel 3 ar raddfa safonol dirwyon y Llysoedd (£1000 ar hyn o bryd).

6.2.4 Pwy fydd yn Gorfodi'r Gorchymyn?

Bydd y Gorchymyn yn cael ei orfodi gan unrhyw berson a awdurdodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gan gynnwys cwmnïau gorfodi a contractiwyd, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a staff perthnasol y Cyngor.

6.2.5 Fydd unrhyw un wedi'i Eithrio o'r Gorchymyn hwn?

Ni fydd unrhyw beth yn y Gorchymyn yn berthnasol i berson sydd-

(a) wedi'i gofrestru yn ddall ar gofrestr a luniwyd dan adran 29 Deddf Cymorth Gwladol 1948; neu

(b) ag anabledd sy'n effeithio eu symudedd, deheurwydd, cydlynid corfforol neu eu gallu i godi, cario neu symud gwrthrychau bob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen benodedig a'u bod yn dibynnu arno am gymorth.

7. CASGLIAD

Mae amrywiaeth eang o weithgareddau y mae perchnogion cŵn a phobl nad ydynt yn berchnogion cŵn yn eu gwneud i fwynhau mannau agored y sir. Pe bai pob gweithgaredd yn cael ei wneud yn gyfrifol, gan ystyried a pharchu eraill, ni fyddai achos i unrhyw un gwyno, ond yn anffodus, nid dyma'r achos.

Daw cyfrifoldebau gydag unrhyw berchnogaeth neu weithgaredd. Wrth yrru car, neu farchogaeth, er enghraifft, mae cyfrifoldeb ar y bobl i wybod a chydymffurfio ag unrhyw gyfreithiau, rheolau neu reoliadau fel – i le alla i fynd? Pryd? Sut? Beth sydd angen i mi ei gael gyda mi? A oes unrhyw gyfyngiadau ac ati? Mae'r un peth yn wir am berchnogaeth ar gŵn. Dylai perchnogion cŵn cyfrifol wybod a sicrhau nad yw eu cŵn yn ymyrryd ar neu'n amharu ar eraill. Maent yn cydnabod nad yw pawb yn rhannu eu cariad at gŵn – fel y gwyddwn, mae rhai pobl yn teimlo'n gyfan gwbl i'r gwrthwyneb.

Mae cynnwys y GDMC diwygiedig arfaethedig felly wedi'u cynllunio i sicrhau bod elfennau sylfaenol perchnogaeth cŵn cyfrifol wedi'u gosod mewn gofynion y gellir eu gorfodi i alluogi pawb i fwynhau mannau agored y Sir.

8. YMGYNGHORIAD A BETH NESAF?

8.1 Pwy rydym yn ymgynghori â nhw ar y Cynnig hwn?

Yn rhinwedd adran 72 y Ddeddf, ar ôl 20 Hydref 2017, cyn cyflwyno unrhyw GDMC newydd neu ddiwygiedig, mae'n rhaid i'r Cyngor ymgynghori â phrif swyddog yr Heddlu, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Cyngorau Tref/Plwyf os yw'n briodol, yr Awdurdod Prifysgol os yw'n berthnasol, a Chynrychiolwyr Cymuned fel sy'n briodol.

Byddwn hefyd yn ymgynghori gyda'r cyhoedd, aelodau etholedig a pherchnogion/tirfeddianwyr sy'n berthnasol i'r GDMC diwygiedig arfaethedig, yn ogystal â budd-ddeiliaid eraill a all gael eu heffeithio.

8.2 Sut alla i roi sylwadau ar y GDMC diwygiedig arfaethedig?

Gall unrhyw un roi eu barn am y GDMC diwygiedig arfaethedig yn ystod y cyfnod ymgynghori, a fydd yn **dechrau ar 22/01/2018 ac yn dod i ben ar 23/02/2018**. Gallwch wneud hyn trwy gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn www.conwy.gov.uk/gdmc. Anfonwch unrhyw ffurflenni a gwblhawyd dros e-bost at PSPOconsultation@conwy.gov.uk neu eu hanfon drwy'r post i:

Ymgynghoriad GDMC
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai
Swyddfeydd Dinesig
Bae Colwyn
LL29 8AR.

Fel arall, bydd copïau papur ar gael yn nerbynfa'r Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Abergele, Bae Colwyn LL29 8AR. Dylid eu llenwi a'u dychwelyd i'r cyfeiriad uchod.

8.3 Pwy sy'n penderfynu beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd y Cyngor yn ystyried yr holl farn a gafwyd, ac wedi hyn bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Economi a Lle i ystyried unrhyw gamau nesaf.